

Annwyl

## **Cwyn mewn perthynas ag ATISN 15425 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Ar 20 Medi, gwnaethoch ysgrifennu at Swyddfa Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad mewnol o'r ffordd yr ymatebodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ar 9 Medi, i'ch cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Fel y gwyddoch yn sgil yr ohebiaeth a anfonais atoch ar 28 Medi, cefais fy mhenodi'n adolygydd Llywodraeth Cymru at ddiben y broses hon.

Cwmpas yr adolygiad mewnol a gynhaliwyd gennyf oedd ystyried a wnaeth AGIC ryddhau'r holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r cais, gan gynnwys ystyried a wnaed defnydd priodol o unrhyw eithriadau rhyddid gwybodaeth. Nodaf nad cais yn gofyn i AGIC roi dogfennau a chofnodion i chi a wnaed gennych, ond yn hytrach cais yn gofyn iddi roi manylion am y wybodaeth a ddelir ganddi.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i unigolion weld gwybodaeth a gofnodwyd a ddelir gan awdurdod cyhoeddus ar yr adeg y derbynnir y cais. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod megis Llywodraeth Cymru roi sylwadau na barn lle nad yw'r sylwadau hynny eisoes wedi'u cofnodi. Mae canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth, 'The Guide to Freedom of Information', yn cadarnhau hyn:

*"The Act does not cover information that is in someone's head. If a member of the public asks for information, you only have to provide information you already have in recorded form. You do not have to create new information or find the answer to a question from staff who may happen to know it."*

O ystyried hyn, fel rhan o'm hadolygiad rwyf wedi siarad â phob aelod o staff AGIC a fu'n ymwneud â'r gwaith o ymateb i'r cais rhyddid gwybodaeth. Mae fy nghanfyddiadau fel a ganlyn:

- 1) A wnaeth AGIC ryddhau'r holl wybodaeth yn ymwneud â'r cais a wnaed yn briodol?

Roedd eich cais yn cynnwys wyth cwestiwn. Nid ceisiadau am wybodaeth a gofnodwyd yw cwestiynau 1 na 2, ac felly ni ellir ymateb iddynt yn y ffordd honno. Yn hytrach, mae angen llunio ymateb naratif iddynt, ac rwyf o'r farn bod ymateb AGIC i'r cwestiynau hyn yn ffeithiol gywir.

Ymddengys fod geiriad cwestiynau 3 a 4 yn gofyn, yn rhannol, am farn (dehongliad) yn hytrach na manylion am gofnodion a ddelir. Fel y nodir uchod, mae cwestiynau o'r fath y tu hwnt i gwmpas ceisiadau a wneir o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, rwy'n fodlon, ar sail y trafodaethau a gefais â'r staff, eu bod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i gofnodion o drafodaethau, a bod yr ymateb

dilynol yn rhesymol ac yn gywir. Rwy'n fodlon ei bod yn rhesymol i AGIC gyfeirio at yr ymatebion ffeithiol gywir a roddwyd i gwestiynau 2 a 3 wrth ymateb i gwestiwn 5.

Roedd ymateb AGIC i gwestiwn 6 yn rhoi dolenni i'r canllawiau y gofynnwyd amdanynt, ac mae hyn hefyd yn ateb cwestiwn 7, sy'n gofyn am "Fanylion unrhyw gyhoeddiad, adroddiad, e-bost ac ati y mae (Llywodraeth Cymru) wedi eu cyhoeddi".

Roedd yr ymateb i gwestiwn 8 yn rhoi dolenni i'r hyfforddiant a roddwyd i'r staff, a gwnaethom gadarnhau nad ydym yn cadw cofnod o'r aelodau o'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nac wedi defnyddio'r fideos Hyfforddiant Ymwybyddiaeth.

## 2) A wnaed defnydd priodol o eithriadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth?

Ar sail fy adolygiad, rwyf wedi dod i'r casgliad na ddefnyddiodd AGIC eithriadau ac nad oedd ganddi unrhyw achos/rheswm dros roi eithriadau ar waith wrth ymateb i'r cais oherwydd cynnwys y wybodaeth a gasglwyd.

O ran y ddau fater uchod a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad mewnol a gynhaliwyd gennyf, rwyf wedi dod i'r casgliad bod ymateb AGIC yn briodol ac, felly, na ellir cadarnhau eich cwyn, gan fod yr holl wybodaeth a nodwyd yn eich cais wedi'i rhoi yn yr ymateb i'ch cais am wybodaeth.

### **Camau Nesaf**

Rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn [Gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru](#), sef canllaw ymarferol Llywodraeth Cymru i'ch helpu i wneud cais am wybodaeth, sydd ar gael drwy'r post ar gais, neu ar y rhynggrwyd.

Os nad ydych yn fodlon o hyd ar yr ymateb hwn, mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Cheshire,

SK9 5AF.

Yn gywir